OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 203 (Cy. 9 ) (C. 10 )

# BYWYD GWYLLT, CYMRU
# HAWLIAU TRAMWY, CYMRU
# PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001

*Wedi'i wneud - - 24 Ionawr 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 103(3) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (**1**).

### Enwi, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

### Diwrnod Penodedig

**2.** 30 Ionawr 2001 yw'r diwrnod penodedig y daw adran 99 o'r Ddeddf i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)).

*D. Elis Thomas*
24 Ionawr 2001 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 2000 p.37
(**2**) 1998 c. 38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod ag adran 99 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ("y Ddeddf") i rym ar 30 Ionawr 2001.

Mae adran 103(3) o'r Ddeddf yn rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i bennu'r dyddiad pan ddaw darpariaeth nad yw'n cael ei dwyn i rym yn awtomatig gan y Ddeddf i rym. Mae adran 99 o'r Ddeddf yn ddarpariaeth y mae adran 103(3) yn gymwys iddi ac sy'n darparu—

(a) mewn perthynas â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (S.I. 1999/672), fod y cyfeiriadau at Ddeddf Priffyrdd 1980 ac at Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw i'w darllen fel petaent yn cyfeirio at y Deddfau hynny fel y'u diwygiwyd gan y Ddeddf; a

(b) bod Atodlen 11 i'r Ddeddf i'w hychwanegu at Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Bydd hyn yn galluogi swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol a gynhwysir yn Atodlen 11 i'r Ddeddf i gael eu harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.